# Mynediad i Ddiploma AU mewn Gofal Iechyd (Rhan Amser)

Mae'r cwrs Diploma Gofal Iechyd Mynediad i Addysg Uwch yn datblygu'r hyder, y wybodaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i astudio israddedig ac i wella eu potensial cyflogaeth.

## Gofynion Mynediad

Gwahoddir ceisiadau gan y rhai sy'n 19 oed neu'n hyn. Y gofynion mynediad yw TGAU Mathemateg ac Iaith Saesneg, ar radd C neu'n uwch, neu ar gyfer y rhai heb unrhyw gymwysterau ffurfiol, gall y Coleg drefnu bod asesiad sgiliau yn cael ei gynnal. Bydd angen i bob ymgeisydd fynychu cyfweliad i bennu addasrwydd ar gyfer y cwrs. Dylai fod gan ymgeiswyr warediad cadarnhaol i fod â chymhelliant dibynadwy.

## Rhagolygon Gyrfa

Mae'r cwrs wedi'i greu ar gyfer y rhai sy'n dymuno symud ymlaen i astudio israddedig a dilyn gyrfaoedd mewn proffesiynau gofal iechyd. Ymhlith yr opsiynau sydd ar gael mae: nyrsio, nyrsio pediatreg, nyrsio iechyd meddwl, bydwreigiaeth, awdioleg, gwyddoniaeth barafeddyg, therapi lleferydd ac iaith, ODP a gwaith cymdeithasol.

## Modiwlau'r cwrs

• Anatomeg a Ffisioleg
• Cymdeithaseg
• Gofal Iechyd
• Seicoleg
• Traethawd Estynedig / Prosiect Ymchwilio
• Sgiliau cyfathrebu
• Rhifedd

## Asesiad

Mae dulliau addysgu ac asesu yn adlewyrchu'r rhai a ddefnyddir yn y brifysgol. Mae galluoedd dysgwyr yn cael eu mesur gan ddefnyddio ystod o strategaethau gan gynnwys cyflwyniadau llafar, posteri academaidd,

traethodau a phrofion a reolir gan amser.

## Costau Ychwanegol

Efallai y bydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chwrs yn berthnasol.

### DULL ASTUDIO

PT

### LLEOLIAD

Coleg Afan - 0330 818 8100

### HYD Y CWRS

2Y